

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021  
am 4.30 pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn  
bresennol:-:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill	Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd W Lewis	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd P Howe	Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd L Jones

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

**9 Croeso a Chyhoeddiadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a manteisiodd ar y cyfle i longyfarch y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned ar ei swydd newydd.

Adleisiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick sylwadau'r Cadeirydd a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Adran Drwyddedu am gyflawni gwaith gorfodi yn ddiweddar yn ei gymuned leol, er gwaethaf y pwysau presennol.

Roedd yr Aelod hefyd yn dymuno cofnodi ei fod yn meddwl am ffrindiau a theulu perchnogion y Conway Inn, Aberdâr, ac yn gweddio drostynt, yn sgil y newyddion trist eu bod wedi marw ar ôl dal Covid-19.

**10 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**11 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

## 12 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2020 yn rhai cywir.

## 13 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Cyn ei chyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor am wall yn yr adroddiad a nododd fod yr wybodaeth yn trafod y cyfnod hyd at 17 Ionawr 2021, nid 2 Chwefror 2021 fel oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Adroddwyd y bu gostyngiad yn nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TENSs), gyda dim ond 18 yn cael eu cyflwyno. Roedd hyn oherwydd y sefyllfa eithriadol o anodd sy'n wynebu'r diwydiant o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, y cyfnod atal byr, a'r cyfyngiadau symud yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Nododd y Cyfarwyddwr hefyd fod nifer sylweddol o drosglwyddiadau a newidiadau o ran Goruchwyliwr Safle Penodedig, a hynny hefyd, mae'n debyg, o ganlyniad i'r ansicrwydd sy'n wynebu tafarndai a chlybiau oherwydd y pandemig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr y bu dadlau ynglŷn â dau gais ers yr adroddiad Pwyllgor diwethaf. Roedd un o'r rhain yn Gais i Amrywio Trwydded Safle, ac roedd y llall yn gais i Amrywio Goruchwyliwr Safle Penodedig.

Adroddwyd hefyd y bu dau adolygiad ar gais Heddlu De Cymru yn ystod y cyfnod. Roedd yr adolygiad cyntaf yn ymwneud â The Legion, y Porth, lle benderfynodd yr Is-Bwyllgor ddiddymu'r Drwydded am bythefnos a diwygio'i hamodau. Roedd yr ail gais yn ymwneud â'r Treorchy Hotel, Treorci, lle benderfynodd yr Is-Bwyllgor ddiwygio amodau'r drwydded. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r pwyllgor bod dau adolygiad arall yn yr arfaeth, wedi'u trefnu ar gyfer mis Chwefror 2021. Byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Cafodd yr Aelodau wybod bod y gyfradd cyflawniad gyfredol yn parhau ar 90.5% gan fod cyn lleied o arolygiadau wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod, wrth i swyddogion ganolbwyntio ar arolygiadau Covid-19.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i ddisgrifio sefyllfa'r diwydiant yn ystod y pandemig Covid-19, gan esbonio fod effaith fawr wedi bod ar y sector lletygarwch oherwydd y rheoliadau llym, ac yna'r cyfyngiadau symud. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor bod swyddogion wedi gweithio'n ddifflino i gyflawni ymweliadau cydymffurfio Covid a'i fod yn hapus i ddweud bod eiddo yn RhCT wedi cydymffurfio ar y cyfan.

Nododd y Cyfarwyddwr fod 359 o ymweliadau wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod, a hynny heb gynnwys y galwadau ffôn roedd Heddlu De Cymru wedi'u derbyn,

ond dywedodd ei bod yn teimlo bod hyn yn tanamcangyfrif y gwaith a wnaed. Cafodd yr Aelodau wybod bod yna safleoedd a oedd wedi methu â glynu wrth y safonau. Roedd hyn wedi arwain at gyhoeddi 18 o hysbysiadau cau a 12 o hysbysiadau gwella yn ystod y cyfnod. Roedd yr Aelodau'n siomedig i nodi bod 74 o hysbysiadau gwella wedi'u cyhoeddi ar y cyfan yn RhCT. Hwn oedd y nifer uchaf yng Nghymru, ond roedden nhw'n cydnabod bod y Garfan Drwyddedu wedi bod yn rhagweithiol, er gwaethaf heriau o ran staffio a phwysau gwaith.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod yr Adran Drwyddedu wedi penderfynu yn y lle cyntaf i beidio gorfodi talu ffioedd ar unwaith yn ystod y cyfnod oherwydd y caledi economaidd sy'n wynebu safleoedd, ond ei bod bellach yn gofyn am daliadau oherwydd gofynion y Ddeddfwriaeth. Nodwyd bod yr incwm a dderbyniwyd wedi cynyddu o £19,540 ar adeg yr adroddiad diwethaf i'r pwyllgor i £103,660. Priodolwyd hyn i waith caled y garfan.

Nododd yr aelodau nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol o ran Deddf Gambo 2005.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Garfan Drwyddedu am ei gwaith parhaus cyn ac yn ystod y pandemig.

**PENDERFYNWYD:-**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
- b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gambo 2005**.

**14 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**15 Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 28.09.20 – 17.01.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned fanylion i'r Pwyllgor am y trwyddedau a'r cofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 28 Medi 2020 i 17 Ionawr 2021.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm**

**Y Cynghorydd A Fox  
Cadeirydd.**